Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

**Uned Iechyd Galwedigaethol (UIG)**

**GWEINYDDWR - 37 AWR YR WYTHNOS**
**RHIF CYF: NU86**
**GRADD 4**
**Cyflog: £19,650 - £20,043 y flwyddyn**

**Dros dro am hyd at 12 mis neu hyd nes y bydd deiliad y swydd yn dychwelyd**

---

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi o fewn Uned Iechyd Galwedigaethol Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym Mhont-y-clun.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu gwasanaeth cymorth gweinyddol cynhwysfawr ar gyfer yr Uned Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys trefnu apwyntiadau, ffeilio, llungopïo yn ogystal â darparu gwasanaeth derbynfa, delio ag ymwelwyr, ymholiadau ffôn ac ymholiadau eraill mewn modd cyfrinachol a sensitif.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad blaenorol o weithio mewn maes gweinyddol yn ogystal â phrofiad o gymwysiadau Microsoft Office. Rhaid i ymgeiswyr allu aml-dasgio a meddu ar agwedd hyblyg at eu gwaith.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn ôl amlinelliad y Fanyleb Person. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 ganol dydd Ddydd Gwener y 15fed o Orffennaf 2022.**

Gellir lawr lwytho pecyn cais gan gynnwys y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad o Adran Swyddi Cyfredol Gwefan Gwasanaeth Tân & Achub De Cymru: www.decymru-tan.gov.uk.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais gorffenedig at: personel@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

disability confident COMMITTED